**LC327**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2001**

**Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys gofynion ar gyfer glanhau a diheintio "cyfrwng cludo" a ddefnyddir i gludo anifeiliaid.

Mae'n disodli Gorchmynion sy'n dyddio o 1927 hyd 1997. Fel gyda rhai o'r Gorchmynion a ddirymwyd mae'n rhoi Cyfarwyddebau yr UE ar waith.

Er mai dim ond i Gymru y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mae'n cael ei wneud ar y cyd rhwng y Cynulliad a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, oherwydd bod y gofyn i wneud hynny wedi'i gadw pan drosglwyddwyd swyddogaethau i'r Cynulliad.

Gwnaed gorchmynion i'r un perwyl ar gyfer Lloegr a'r Alban – OS 2000/1618 (mewn grym 6 Gorffennaf 2000) ac OSA 2000/167 (mewn grym 27 Mehefin 2000).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i fwrw golwg ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau wedi llwyddo i godi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau y mae angen i'r Pwyllgor dynnu sylw arbennig y Cynulliad atynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Hydref 2001